

## **Bwystfilod y Baw**

Gall y profiad dysgu yma ennyn diddordeb y rhai nad oes ganddynt fynediad cyson at Gegin Fwd. Mae'n brofiad dysgu y gellir ei gynnal mewn unrhyw ffurf ac mae modd ei deilwra i herio amrywiaeth eang o sgiliau mathemategol. Gyda'r weithgaredd benodol hon mae'r plant yn cael eu herio i greu eu bwystfilod mwd eu hunain sy'n 10cm o daldra (neu unrhyw fesur ansafonol, ee yr un taldra â dwy garreg).

Mae'n bwysig cynnig amrywiaeth o adnoddau ac ystod o ddeunyddiau naturiol i addurno'r bwystfilod e.e. dail, brigau, cregyn neu unrhyw beth y gallent ddod o hyd iddo yn yr awyr agored. Mae cael mynediad at ddŵr yn y gegin fwd yn bwysig er mwyn gallu arbrofi gydag ansawdd cymysgedd y mwd. Bydd angen darparu ystod o gynhwysyddion dŵr, megis jygiau mesur. Mae angen caniatáu digon o amser yn y gegin fwd cyn gosod unrhyw her fel y gallant archwilio natur y mwd a deall ei briodweddau'n gyntaf.

Bydd angen amrywiaeth o ddeunyddiau i ysbrydoli'r plant ac mae ychwanegu briciau, cerrig, hadau, llygaid *googly*, botymau, moch coed, mes, concyrs ac ati yn siŵr o sbarduno eich dychymyg chi a'r plant!

Mae'r adnoddau a deunyddiau hefyd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mathemategol megis cyfrif (faint o fotymau rydych chi wedi'u defnyddio?), cymesured (a allwch chi wneud eich anghenfil yn gymesur), trin arian (codi prisiau gwahanol am yr eitemau a ddefnyddir).

Mae darparu amrywiaeth o wahanol fathau o offer mesur yn ychwanegu cyd-destun rhesymu rhifyddol hefyd. Ydyn nhw'n gallu pwysu'r anghenfil mwd, pa mor llydan ydio, pa mor dal ydio ac ati. Sut maent am ei fesur? Pa offer maent am ei ddewis? Beth yw'r amrywiaeth o offer ydych chi'n ei ddarparu?

Darparwch amrywiaeth o gynhwysyddion mesur hylif ar gyfer mesur yn safonol ac ansafonol. Gall y plant archwilio faint o hylif sydd ei angen i greu'r cymysgedd mwd o'r ansawdd orau ar gyfer greu eu hanghenfil mwd. Gellir addasu'r dasg drwy fesur mewn mililitrau, gweithio allan cymarebau mwd i ddŵr a chofnodi a recordio ryseitiai ar gyfer gwneud anghenfil mwd.

Bydd meddwl yn feirniadol a chreadigol yn datblygu'n naturiol trwy'r gweithgaredd hwn. Mae elfennau eraill y gellir eu hychwanegu i gyfoethogi'r profiad megis:

- Rhyngweithio a chwestiynu gan oedolion
- Heriau penagored
- Darparu cyfoeth o adnoddau